# Paratoi offal ar gyfer seigiau sylfaenol

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â pharatoi offal ar gyfer seigiau sylfaenol.

Mae’r safon yn ymwneud ag amrywiaeth o ddulliau paratoi ac mae’n cynnwys pob math o offal, gan gynnwys yr afu/iau, yr aren, y boch a’r cefndedyn.

Mae’r safon hon yn canolbwyntio ar y wybodaeth a’r sgiliau technegol y mae eu hangen i baratoi offal ar gyfer seigiau sylfaenol; fodd bynnag, dylid ei hasesu yng nghyd-destun ehangach arferion gweithio diogel a hylan. Argymhellir cyfeirio at yr NOS canlynol, a ddewisir am eu bod yn briodol i’r rôl ac i’r sefydliad, ar y cyd â’r sgiliau a’r wybodaeth dechnegol ar gyfer y safon:

- Cynnal diogelwch bwyd sylfaenol mewn arlwyo
- Cynnal diogelwch bwyd mewn amgylchedd cegin
- Rhoi cyngor sylfaenol ar alergenau i gwsmeriaid
- Lleihau risg alergenau i gwsmeriaid

Pan fyddwch chi wedi cwblhau’r safon hon, byddwch chi’n gallu dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i:

- Baratoi offal ar gyfer seigiau sylfaenol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Dewis y math o offal a faint sydd ei angen i'w baratoi
2. Gwirio bod yr offal yn bodloni gofynion ansawdd a gofynion eraill
3. Dewis yr offer, y cyllyll a'r cyfarpar cywir sy'n ofynnol i baratoi'r offal
4. Defnyddio'r offer, y cyllyll a'r cyfarpar yn gywir wrth baratoi'r offal
5. Paratoi'r offal i fodloni gofynion y saig
6. Storio unrhyw offal a baratowyd na fydd yn cael ei ddefnyddio ar unwaith yn unol â rheoliadau diogelwch bwyd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Gwahanol fathau o offal a ddefnyddir yn gyffredin a sut i'w hadnabod
2. Sut i wirio bod yr offal yn bodloni gofynion
3. Pa bwyntiau ansawdd i chwilio amdanynt mewn offal ffres
4. Pam dylech chi roi gwybod am unrhyw broblemau gyda'r offal neu gynhwysion eraill, ac i bwy
5. Yr offer, y cyllyll a'r cyfarpar cywir i gyflawni'r dulliau paratoi gofynnol
6. Sut i gyflawni'r dulliau paratoi yn gywir
7. Pam mae'n bwysig defnyddio'r technegau, yr offer, y cyllyll a'r cyfarpar cywir wrth baratoi'r offal
8. Sut i storio offal a baratowyd yn gywir
9. Opsiynau bwyta'n iach wrth baratoi offal

## Cwmpas/Ystod

**1. Offal**

1.1 yr afu/iau

1.2 yr aren

1.3 cefndedyn

1.4 boch

**2. Dulliau paratoi**

2.1 torri / sleisio

2.2 marinadu / sesno

2.3 caenu â blawd

2.4 tynnu'r croen

2.5 trimio a thynnu gwythiennau

2.6 blendio / briwio

2.7 mwydo mewn dŵr halen

2.8 cywasgu

Paratoi offal ar gyfer seigiau sylfaenol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | People 1st |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | People 1st |
| **RCU gwreiddiol** | PPL2PC13 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cogydd, Cynorthwy-ydd cegin |
| **Cyfres/Set** | Lletygarwch - Coginio Proffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | paratoi, offal, seigiau, sylfaenol |